



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

**AROLWG HYDREDOL O**

**ARDALOEDD MENTER YNG NGHYMRU**

**CAM 2 – Y PRIF BWYNTIAU**



**MAWRTH 2015**

## Y Cefndir

Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi cadarnhau bod saith ardal yng Nghymru wedi'u dynodi'n Ardaloedd Menter. Mae pob un o'r Ardaloedd Menter hynny'n canolbwyntio ar sector cyflogaeth neu ar sector diwydiannol allweddol.

Dyma ble mae'r Ardaloedd Menter hynny:

- Ynys Môn
- Canol Caerdydd
- Glannau Dyfrdwy
- Glyn Ebwy
- Dyfrffordd y Ddau Gleddau
- Eryri
- Sain Tathan - Maes Awyr Caerdydd

Nod cyffredinol sefydlu Ardaloedd Menter yw dod â manteision i'r ardaloedd hynny drwy sicrhau twf economaidd a chreu swyddi, gan hyrwyddo gweithgarwch mewn ardaloedd daearyddol penodol.

Dyma'r amcanion:

- Hybu twf yn yr economi leol a chreu swyddi newydd
- Bod yn gyfrwng i sbarduno twf mewn rhannau eraill o Gymru
- Gwneud yr Ardal Fenter yn fwy deniadol i fuddsoddwyr
- Gwneud economi Cymru yn fwy cystadleuol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol er mwyn inni fedru mesur gwariant Llywodraeth Cymru a llwyddiant cysylltiedig yr Ardaloedd Menter o ran i ba raddau y maent yn sicrhau'r canlyniadau a ddymunir, megis twf a swyddi.

Cyhoeddwyd y Dangosyddion Perfformiad hynny, ynghyd â'r ffigyrau ar gyfer perfformiad fesul chwe mis yn <http://wales.gov.uk/topics/businessandconomy/publications/welsh-gov-eww-key-performance-indicators/?lang=cy>

Law yn llaw â'r Dangosyddion Perfformiad hyn sy'n mesur effaith prosiectau a buddsoddiadau a gefnogir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, rydym yn awyddus hefyd i glywed agweddau a chanfyddiadau busnesau yn yr Ardaloedd hyn ynglŷn â'r effaith y mae bod mewn Ardal o'r fath yn ei chael arnynt, y gwerth y mae'n ei ychwanegu, a'i effeithiolrwydd. Oherwydd hyn, aethom ati, ym mis Hydref 2013, i gomisiynu arolwg hydredol o fusnesau yn Ardaloedd Menter Cymru. Arolwg meintiol annibynnol oedd hwn, a gynhaliwyd dros y ffôn. Mae sefydlu Ardaloedd Menter yn ffordd hirdymor o ddatblygu'r economi, felly bydd angen mesur eu perfformiad yn y tymor hwy. O'r herwydd, rydym wedi comisiynu arolwg cychwynnol a fydd yn cael ei ddilyn wedyn gan arolygon pellach a fydd yn defnyddio sampl llai o faint, a hynny dros gyfnod o ddwy flynedd,.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi canfyddiadau ail arolwg yr arolwg hydredol o'r Ardaloedd Menter ('yr ail gam') a hefyd yn tracio newidiadau yn y canfyddiadau o'u cymharu â'r hyn a ganfuwyd yn yr arolwg cychwynnol ('y cam cyntaf').

Yn y cam hwn, a oedd yn debyg o ran maint i'r cam cyntaf, cynhaliwyd cyfweiliadau dros y ffôn â 201 o fusnesau (o'i gymharu â 247 yn y cam cyntaf) wedi'u lleoli ar draws y saith Ardal Fenter yng Nghymru o blith cyfanswm o 592 o gwmnïau a nodwyd (o'i gymharu â 522 yn y cam cyntaf).

## Prif Bwyntiau Cam 2 yr Arolwg

### 1. Ymwybyddiaeth bod y busnes mewn Ardal Fenter a'r manteision sy'n gysylltiedig â hynny.

Nododd ail gam yr arolwg gynnydd mewn sawl maes o ran ymwybyddiaeth bod busnesau mewn Ardal Fenter a manteision hynny, yn enwedig felly'r buddiannau sydd ar gael o ran ardrethi busnes a Chyflymu Cymru:

- Roedd 8 o bob 10 busnes ar gyfartaledd yn ymwybodol eu bod wedi'u lleoli mewn Ardal Fenter. Mae hyn wedi cynyddu ers y cam cyntaf. **(7 o bob 10 yn y cam cyntaf)**

*(Sylwer: yn y cam cyntaf 32% o fusnesau yn unig oedd yn ymwybodol o hynny yn Ardal Fenter Canol Caerdydd; awgrymodd ymchwilyr fod modd priodoli hyn i'r ffaith bod yr Ardal wedi'i lleoli yng nghanol dinas Caerdydd, sydd yn ddeniadol ynddo'i hun. Cynhaliwyd ymgyrch farchnata wedi ei hanelu at Gaerdydd er mwyn mynd i'r afael â hyn ac ar yr ail gam nododd 53% o'r busnesau a holwyd yn Ardal Fenter Canol Caerdydd eu bod yn ymwybodol eu bod wedi'u lleoli o fewn yr Ardal Fenter)*

- Roedd mwy na hanner y busnesau (57%) o'r farn bod eu lleoliad mewn Ardal Fenter yn ychwanegu gwerth at eu busnes neu'n dod â buddiannau iddo. Mae hyn yn gynnydd ar y cam cyntaf **(53% yn y cam cyntaf)**
- Roedd bron i dri chwarter (73%) y busnesau a holwyd yn gwybod am y cymorth ardrethi busnes sydd ar gael. Mae hyn yn gynnydd ar y cam cyntaf **(49% yn y cam cyntaf)**
- Roedd dros hanner (53%) y busnesau a holwyd yn gwybod am y cymorth sydd ar gael ar gyfer hyfforddi a datblygu. Mae hyn yn gynnydd ar y cam cyntaf **(43% yn y cam cyntaf)**
- Roedd bron i draean (31%) o'r busnesau a holwyd yn gwybod am y cyfraddau benthyca ffafriol a lansiwyd yn ddiweddar gan Gyllid Cymru. Mae hyn yn gynnydd ar y cam cyntaf **(20% yn y cam cyntaf)**
- Roedd bron i hanner (41%) y busnesau a holwyd yn gwybod am y cymorth ar gyfer Cyflymu Cymru. Mae hyn yn gynnydd ar y cam cyntaf **(21% yn y cam cyntaf)**

### 2. Proffil y busnesau yn yr Ardaloedd Menter

Mae proffil y busnesau a holwyd yn ystod ail gam yr arolwg yn debyg iawn i broffil y rhai a holwyd yn ystod y cam cyntaf:

- Roedd proffil y cwmnïau a holwyd yn debyg iawn i broffil y rhai yn y cam cyntaf; roedd dros ddwy ran o dair (67%) o'r busnesau mewn Ardaloedd Menter a holwyd wedi'u sefydlu ers tro (dros 10 mlynedd) gyda bron i hanner ohonynt (44%) mewn busnes ers dros 20 mlynedd.
- Yn yr un modd, fel yn y cam cyntaf, roedd ychydig dros hanner y busnesau a holwyd yn cyflogi 10 o weithwyr neu lai; roedd traean yn cyflogi rhwng 11 a 49 o weithwyr; a'r gweddill yn cyflogi 50 neu fwy. *Sylwer, mae hyn yn dangos cyfran uchel o fusnesau yn y categori 11-49 o weithwyr, o'i gymharu â gweddill Cymru ac mae'n gyson â cham un.*

## Defnyddio'r manteision sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Menter

Dangosodd ail gam yr arolwg fod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o'r manteision sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Menter, yn enwedig ymhlith busnesau llai:

- Roedd bron i 6 o bob 10 (59%) o'r busnesau a holwyd wedi manteisio ar un neu fwy o'r manteision a oedd ar gael iddynt oherwydd eu bod mewn Ardal Fenter. **(45% yn y cam cyntaf)**
- Gwnaed cynnydd o ran ysgogi busnesau llai i ddefnyddio'r manteision sydd ar gael iddynt. Ymhlith busnesau sy'n cyflogi rhwng 1 a 5 o bobl, roedd 56% wedi defnyddio un neu fwy o'r manteision, o'i gymharu â 37% yng nghanam un. Yn ogystal, roedd 58% o fusnesau sy'n cyflogi rhwng 6 a 10 wedi defnyddio o leiaf un o'r manteision, o'i gymharu â 36% yng nghanam un.
- Roedd ychydig dros un o bob pump (21%) o'r busnesau a holwyd wedi elwa ar gymorth hyfforddi a datblygu. **(22% yn y cam cyntaf)**

### 3. Effaith y manteision sy'n gysylltiedig ag Ardaloedd Menter

Dangosodd ail gam yr arolwg fod y farn ynglŷn ag effaith manteision bod mewn Ardal Fenter wedi aros yn debyg i'r hyn a nodwyd yn y cam cyntaf:

- Pryd y mynegwyd barn, dywedodd bron i ddau fusnes o bob tri (64%) fod y manteision sy'n gysylltiedig â'r Ardal Fenter wedi cael effaith gadarnhaol neu gadarnhaol iawn ar eu busnes. **(72% yn y cam cyntaf)**
- Roedd bron i draean (29%) o'r busnesau a holwyd wedi creu swyddi newydd yn ystod y 12 mis diwethaf. **(33% yn y cam cyntaf)**
- Roedd mwy na thraean (38%) o'r busnesau a holwyd wedi diogelu swydd yn ystod y 12 mis diwethaf. **(32% yn y cam cyntaf)**
- Roedd bron i hanner (44%) y busnesau a holwyd yn ffyddiog y byddai eu cwmni'n tyfu yn y dyfodol. **(46% yn y cam cyntaf)**
- Roedd tua hanner y rheini a holwyd o'r farn y byddai bod mewn Ardal Fenter yn eu helpu i ddiogelu swyddi (52%) neu greu swyddi newydd (45%) yn ystod y 12 mis nesaf. **(53% yn diogelu; 48% yn creu swyddi newydd yn y cam cyntaf)**
- Dywedodd traean o'r busnesau fod eu lleoliad mewn Ardal Fenter wedi cyfrannu at dwf a chynnydd mewn trosiant **(Cwestiwn newydd ar gyfer cam 2)**
- Dywedodd ychydig o dan draean (30%) o'r busnesau fod bod mewn Ardal Fenter wedi cyfrannu tuag at iddynt fuddsoddi cyfalaf **(Cwestiwn newydd ar gyfer cam 2)**

### 4. Y Rhwystrau sy'n llesteirio busnesau a chymorth gan Lywodraeth Cymru

Fel yng nghanam cyntaf yr arolwg, y ddau rwystr mwyaf cyffredin a oedd yn atal busnesau rhag cyflawni eu hamcanion oedd diffyg gwasanaethau band eang – neu arafwch y gwasanaeth – ac ardrethi busnes.

Mae'r meysydd hyn yn rhai y mae gan Lywodraeth Cymru fentrau penodol ar eu cyfer yn yr Ardaloedd Menter y bydd busnesau'n elwa'n uniongyrchol arnynt:

- Neilltuwyd dros £7.5 miliwn ar gyfer ceisiadau a gymeradwywyd o dan ddau gylch cyntaf y Cynllun Ardrethi Busnes ar gyfer Ardaloedd Menter i gefnogi busnesau sydd wedi'u lleoli yn yr Ardaloedd Menter. Neilltuwyd £173,000 arall i gefnogi busnesau sydd wedi'u lleoli yn Ardal Fenter y Ddau Gleddau sydd wedi dioddef oherwydd cau purfa olew Murco'n ddiweddar.
- Mae Ardaloedd Menter yn cael blaenoriaeth o dan raglen Cyflymu Cymru, ac mae'r gwaith wedi hen ddechrau yn yr holl Ardaloedd. Yn ogystal, ym mis Rhagfyr 2014 lansiodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun Taleb Gwibgyswllt, gyda'r Ardaloedd Menter yn cael blaenoriaeth, er mwyn helpu busnesau â chostau cyfalaf darparu gwibgyswllt data.

Yn debyg i'r busnesau a holwyd yn ystod y cam cyntaf, roedd y busnesau a holwyd nawr hefyd o'r farn mai'r rhwystrau nesaf o ran eu pwysigrwydd oedd rhai yn ymwneud ag argaeledd sgiliau a materion recriwtio. Mae hwn yn faes arall lle y mae cymorth penodol ar gael eisoes ac rydym yn parhau i weithio ym mhob Ardal i helpu i oresgyn y problemau hyn – mae mwy o wybodaeth ar gael yn <http://gov.wales/topics/businessandconomy/business-wales/enterprisezones/?lang=cy>

Yn yr un modd â'r cam cyntaf, mae canlyniadau'r arolwg yn awgrymu bod y cymhellion sydd ar gael eisoes yn yr Ardaloedd Menter o ran ardrethi busnes, band eang, a hyfforddiant a sgiliau yn cyd-fynd â'r materion y mae'r busnesau eu hunain wedi eu nodi sy'n eu hatal rhag tyfu.